WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 Tachwedd 2006
www.wao.gov.uk

# Menter Twyll Genedlaethol Cymru 2004/2005: Crynhodeb o'r darganfyddiadau

4981 WAO NAT Fraud(W)4.qxp 22/11/06 1:27 pm Page 2



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddys (Cymru) 2004 yng nghyd destun llywodraeth leol, ac o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yng nghyd destun cyrff y GIG. Rwyf hefyd wedi cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Cyflawnwyd tipyn o'r gwaith sylfaenol dan Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 cyn dechreuad y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

Yn ogystal â chydweithwyr o'r Comisiwn Archwilio, cynhwysai tîm yr astudiaeth o Swyddfa Archwilio Cymru Gill Lewis, David Rees a Nathan Nash

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 4 |
| 1 | Adran 1: Y Fenter Twyll Genedlaethol – Cynorthwyo'r sector cyhoeddus i atal a chanfod twyll | 5 |
| 2 | Adran 2: Canlyniadau ac effaith ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol 2004/2005 | 7 |

# Crynodeb

1 Gwariodd cyrff cyhoeddus Cymru tua £8 biliwn o arian cyhoeddus yn 2004/2005. Defnyddiwyd cyfran sylweddol ohono gan awdurdodau lleol fel budd-daliadau a thaliadau i unigolion i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol. Mae'r budd-daliadau a'r taliadau hyn yn aml wedi'u seilio ar ddata a gyflwynir gan aelodau'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys manylion incwm, llety a chyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhoi gwybodaeth gywir, eraill ddim. Gall hyn olygu bod taliadau a budd-daliadau ffug yn cael eu gwneud a'u hawlio'n amhriodol. Mae'n anodd i gyrff cyhoeddus ganfod enghreifftiau o'r fath gan fod y manylion perthnasol yn cael eu cadw mewn systemau ariannol ac anariannol amrywiol, ac mae twyllwyr weithiau'n gweithio mewn sawl ardal ddaearyddol.

2 Yr her i sefydliadau'r sector cyhoeddus yw gweithio mewn partneriaeth i leihau achosion o dwyll a gwallau. Trwy baru data ledled cyrff y sector cyhoeddus a rhwng systemau gwahanol, mae modd dod o hyd i daliadau twyllodrus a gwallus posibl. Dyma pam y cafodd y Fenter Twyll Genedlaethol ei datblygu gan y Comisiwn Archwilio. Dechreuodd gwaith y Fenter ym 1996, ac mae'n cael ei gynnal bob dwy flynedd. Hyd yma, fe'i defnyddiwyd i ganfod achosion o dwyll a gwallau gwerth dros £300 miliwn (£7.5 miliwn yng Nghymru). Daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am Fenter Twyll Genedlaethol Cymru yn 2005.

3 Cafwyd manteision ariannol sylweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn sgil yr ymarfer diwethaf, 'Menter 2004/2005'. Adroddodd cyrff cyhoeddus yng Nghymru eu bod wedi dod ar draws gwerth £2.6 miliwn o daliadau twyllodrus a gwallus yn sgil ymchwilio i'r parau data.

4 Yn ogystal, rhoddodd Menter 2004/2005 fanteision anariannol sylweddol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy'u cynorthwyo i wella'u trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd a meithrin diwylliannau gwrth-dwyll.

5 Er mai Menter 2004/2005 oedd un o'r ymarferion mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn, mae lle i'w gwella ymhellach yn y dyfodol. Mae modiwlau paru data newydd eisoes wedi'u datblygu a rhagwelir y byddant o gymorth i ganfod twyll mewn meysydd eraill. Mae bwriad hefyd i ehangu nifer y cyrff sy'n darparu data i'r Fenter. O ganlyniad, bydd y Fenter yn gallu paru mwy o ddata, gan ganfod taliadau twyllodrus a gwallus posib. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru eisoes yn ystyried sut i wella'r trefniadau ar gyfer ehangu a phrosesu'r Fenter i sicrhau bod ymarferion y dyfodol yn rhoi'r canlyniadau gorau posib ac i annog mwy o bartneriaeth a chydweithio rhwng yr holl gyrff sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer.

6 I sicrhau bod ymarferion y Fenter yn y dyfodol yn parhau i roi canlyniadau llwyddiannus i sector cyhoeddus Cymru, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu cymorth a hyfforddiant parhaus i gyrff cyhoeddus ar ddefnyddio'r offeryn, ac mae angen i'r cyrff dan sylw ddyrannu digon o aelodau staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol i ymchwilio i barau data a gynhyrchir gan y Fenter.

# Adran 1: Y Fenter Twyll Genedlaethol – Cynorthwyo'r sector cyhoeddus i atal a chanfod twyll

**1.1** Bob blwyddyn mae awdurdodau lleol Cymru yn gwario symiau sylweddol o arian ar ddarparu help a chymorth i bobl fwyaf anghenus y gymuned. Derbyniodd dros 200,000 o bobl yng Nghymru gymorth i dalu'r rhent trwy daliadau budd-dal tai ac ad-daliadau rhent. Rhyddhawyd 150,000 o anheddau cyngor gan yr awdurdodau i'w rhentu ar sail angen. Yn 2004/2005, gwariwyd bron £560 miliwn ar fudd-daliadau tai'n unig.

**1.2** I dderbyn y gwasanaethau a/neu'r taliadau hyn, rhaid i ddarpar dderbynwyr wneud cais i'w hawdurdod lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cymhwysedd yn seiliedig ar brawf modd. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn onest ac yn darparu gwybodaeth gywir wrth wneud cais. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr yn rhoi gwybodaeth anwir wrth wneud cais am wasanaethau awdurdod lleol ac yn hawlio budd-daliadau tai, ad-daliadau rhent, pensiynau a budd-daliadau eraill trwy dwyll.

**1.3** Mae twyll yn broblem ddifrifol. Nid yn unig y mae'n lleihau'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf, mae hefyd yn tanseilio hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus.

**1.4** Mae llawer o awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Mae gan bob un ei systemau gwybodaeth ei hun. Yn y gorffennol, mae wedi bod yn anodd i'r cyrff hyn rannu gwybodaeth a gwneud ymdrech ymroddedig a chydlynol i atal twyll a chanfod unigolion sy'n mynd ati'n fwriadol i dwyllo'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, mae twyllwyr yn aml yn symud o un awdurdod lleol i'r llall yng Nghymru ac yng ngweddill y DU ac mae hyn yn gwneud ymdrechion i gymharu data a cheisio canfod gweithgareddau twyllodrus yn fwy cymhleth byth.

**1.5** Ym 1996, lansiodd Comisiwn Archwilio Cymru a Lloegr y Fenter Twyll Genedlaethol. Ei diben oedd helpu cyrff cyhoeddus i baru gwybodaeth hawlwyr ar draws meysydd gwasanaethau gwahanol a ffiniau daearyddol. Bu'r ymarfer cyntaf yn llwyddiant ysgubol. O ganlyniad, mae bellach yn cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn ac mae wedi ennill ei blwyf fel rhan annatod o'r broses archwilio allanol a'r fframwaith llywodraethu ehangach. Y fenter yw'r prif ymarfer canfod twyll yn y sector cyhoeddus yn y DU. Ers 1996, mae'r system wedi'i defnyddio i ganfod twyll a gordaliadau gwerth dros £7.5m yng Nghymru a thros £300 miliwn ledled y DU gyfan. Bu dros 1,300 o sefydliadau yn y DU yn cymryd rhan yn ymarfer diweddaraf y Fenter (68 yng Nghymru). Yn sgil creu Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2005, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd bellach yn gyfrifol am y Fenter yng Nghymru.

**1.6** Mae'r Fenter yn ymarfer 'paru data' cynhwysfawr a thrylwyr ond eto mae'r cysyniad yn un syml; mae gofyn i Awdurdodau gyflwyno gwybodaeth am eu systemau ariannol i'r Comisiwn Archwilio. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â budd-daliadau tai, ad-daliadau rhent, taliadau pensiwn, y gyflogres, taliadau i geiswyr lloches, tenantiaethau cyngor, dyfarniadau myfyrwyr, cofnodion marwolaethau ac ati. Mae'r data dan sylw yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata ganolog y Comisiwn Archwilio sydd wedi'i chynllunio i baru data i ganfod achosion posib o weithgareddau twyllodrus neu amhriodol.

**1.7** Mae modd defnyddio'r system i gynhyrchu adroddiadau i dynnu sylw at, er enghraifft:

- unigolion yn hawlio budd-dal tai mewn sawl awdurdod gwahanol;
- staff y sector cyhoeddus sy'n hawlio budd-dal tai pan nad oes ganddynt hawl; a
- staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn amser gan fwy nag un corff yn y sector cyhoeddus.

**1.8** Mae system y Fenter yn cynnwys rhai miliynau o eitemau data unigol ond mae wedi'i chynllunio i fod yn hawdd i'w dadansoddi a'i thrafod. Hynny yw, mae'n hawdd iawn ei defnyddio. Caiff y system ei dosbarthu ar CD i bawb sy'n cymryd rhan yn y Fenter i ymchwilio i'r 'parau' sydd wedi'u canfod. Os oes taliadau twyllodrus neu ordaliadau'n cael eu canfod o ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn, hysbysir y Comisiwn Archwilio am werth y trafodion hyn.

**1.9** Cynhaliwyd ymarfer diweddaraf y Fenter yn 2004/2005 ac fel rhan o raglen Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio canlyniadau ac effaith yr ymarfer diweddaraf ac wedi ystyried sut gellir datblygu a gwella'r Fenter.


# Adran 2: Canlyniadau ac effaith ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol 2004/2005

## Mae'r Fenter wedi canfod gordaliadau ac arbedion ariannol sylweddol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**2.1** Cymerodd bron 70 o awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu, awdurdodau tân, cyrff y GIG a byrddau prawf Cymru ran ym Menter Twyll Genedlaethol 2004/2005 y Comisiwn Archwilio. Derbyniodd pob un ohonynt CD o barau data a oedd yn dangos gweithgareddau twyllodrus neu ordaliadau posibl. Mae archwilwyr wedi gweithio gyda chyrff i helpu i ddehongli a dadansoddi data'r Fenter a llywio'r gwaith ymchwilio i ganfod a fu twyll ai peidio.

**2.2** O ddadansoddi canlyniadau Menter 2004/2005 yng Nghymru, gwelir bod gwerth y twyll a'r gordaliadau a adroddwyd wedi gostwng 5.5% i £2.6 miliwn (£2.75 miliwn yn 2002/2003). Mae hyn yn galonogol oherwydd mae'n awgrymu bod ymarferion blaenorol y Fenter wedi llwyddo i ganfod a dileu nifer o achosion o dwyll hirdymor, yn enwedig taliadau a wnaed yn enw pensiynwyr marw. Dengys Arddangosyn 1 lefel yr arbedion a adroddwyd ar gyfer pob ymarfer bob yn ail flwyddyn ers i'r Fenter ddechrau ym 1996.

Arddangosyn 1: Arbedion a Adroddwyd gan y Fenter yng Nghymru £miliwn




*Ffynhonnell: Y Comisiwn Archwilio*

4981 WAO NAT Fraud(W)4.qxp 22/11/06 1:27 pm Page 8

**2.3** Yn ogystal â'r taliadau twyllodrus a gwallus y daethpwyd ar eu traws, arweiniodd yr ymarfer at y canlynol hefyd;

- 31 erlyniad llwyddiannus; a
- 206 achos o dwyll neu wallau gan weithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn Arddangosyn 2


## Canlyniadau parau budd-daliadau tai

**2.4** Mae'r Fenter yn paru nifer o setiau data gan gynnwys data cyflogres, benthyciadau myfyrwyr a chofnodion phobl wedi marw â thaliadau budd-dal tai awdurdodau lleol i ganfod twyll a gwallau posib.

**2.5** Llwyddodd awdurdodau i wneud arbedion sylweddol yn sgil canfod ac adennill twyll budd-dal tai a gordaliadau eraill, a dyma oedd yr agwedd fwyaf llwyddiannus ar Fenter 2004/2005. Mae'r Fenter yn ategu gwaith yr Arolygiaeth Twyll Budd-daliadau. Canfu Menter 2002/2003 £1.038 miliwn yn ymwneud a budd-daliadau tai (£0.714 miliwn yn 2002/2003) o arbedion i awdurdodau yng Nghymru, sef 45% o gynnydd ers yr ymarfer blaenorol.

**2.6** Cafodd data budd-dal tai ei baru â chofnodion cyflogau cyrff cyhoeddus eraill, i bennu a oedd hawlwyr wedi datgan eu hincwm o waith cyflogedig yn llawn. Mewn llawer o achosion, roedd gweithwyr cyflogedig yn hawlio budd-dal tai gan yr awdurdod lleol heb ddatgan eu hincwm. Hyd yn hyn, mae awdurdodau lleol Cymru wedi canfod dros 200 o weithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus (100 yn 2002/2003) sydd naill ai'n hawlio budd-dal tai trwy dwyll neu wedi derbyn gormod o fudd-dal tai.

### Arddangosyn 2: Crynhodeb o ganlyniadau'r Fenter yng Nghymru




*Ffynhonnell: Y Comisiwn Archwilio*

**2.7** Yn aml, nid yw myfyrwyr sy'n gymwys i gael benthyciadau myfyrwyr yn gymwys i hawlio budd-dal tai. Bu Menter 2004/2005 yn paru cofnodion budd-dal tai â data benthyciadau myfyrwyr a chanfuwyd taliadau budd-dal tai twyllodrus posibl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i awdurdodau â phoblogaeth fyfyrwyr fawr ac awdurdodau cyfagos. Canfuwyd bod cyfanswm o 23 myfyriwr yn hawlio budd-dal tai'n dwyllodrus neu'n derbyn gormod o fudd-daliadau tai (gweler Astudiaeth Achos 1).

> **Astudiaeth Achos 1**
>
> Mae un awdurdod lleol wedi elwa'n sylweddol o baru hawliadau budd-dal tai â benthyciadau myfyrwyr. Mewn un achos, cafodd y sawl a oedd yn twyllo ei garcharu am 4 mis. Mae'r cyngor yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r achos hwn ac eraill yn fewnol ac yn allanol i ddangos agwedd ragweithiol y Cyngor at dwyll ac i atal darpar dwyllwyr.

**2.8** Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth fynd i'r afael â pharau budd-dal tai a ddaeth i'r amlwg fel rhan o Fenter 2004/2005 (Astudiaeth Achos 2).

> **Astudiaeth Achos 2**
>
> Trwy ymchwilio i'r parau budd-dal tai, mae Cyngor Caerdydd wedi canfod 105 achos gyda chyfanswm o dros £0.5 miliwn mewn gordaliadau. Hyd yn hyn, mae 24 erlyniad llwyddiannus, 13 rhybudd a 4 cosb weinyddol wedi'u cyflawni ac mae 6 achos arall yn disgwyl dyddiad llys. Mae'r tîm yn parhau i weithio ar nifer o achosion eraill a rhagwelir rhagor o achosion cyfreithiol. Mae deg gordaliad eisoes wedi'u had-dalu'n llawn ac mae canran fawr o achosion eraill yn cael ei hadennill ar hyn o bryd.

## Canlyniadau parau taliadau pensiwn

**2.9** Caiff data cynlluniau pensiwn ei baru â chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau o bobl farw i ganfod pensiynau sy'n cael eu talu'n amhriodol. Mae'r taliadau amhriodol hyn yn cynnwys taliadau i bensiynwyr marw neu daliadau i weithwyr cyflogedig sy'n dychwelyd i'r gwaith tra'n tynnu pensiwn. Caiff y parau eu darparu i weinyddwyr y cynllun pensiwn er mwyn eu hadolygu. Canfuwyd cyfanswm o £98,000 o ordaliadau pensiwn gan ddefnyddio Menter 2004/2005 (£135,000 yn ymarfer 2002/2003).

**2.10** Gostyngodd nifer yr achosion lle'r oedd pensiynau'n parhau i gael eu talu ar ôl marwolaeth y pensiynwr o 61 i 21, 66% o ostyngiad. Mae'r gostyngiad hwn yn newyddion da oherwydd mae'n awgrymu bod nifer o achosion o dwyll hirdymor wedi'u dileu yn sgil ymchwilio i'r parau a ddaeth i'r amlwg yn ymarferion blaenorol y Fenter ac mae'n adlewyrchu manteision hirdymor cymryd rhan yn y Fenter.

**2.11** Lle mae gweithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus yn ymddeol yn gynnar ac yn tynnu pensiwn, gall eu hawl i bensiwn gael ei effeithio os ydyn nhw'n cael eu cyflogi drachefn yn yr un sector. Mae'r Fenter yn paru gweithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus â phensiynwyr y sector cyhoeddus. Cafwyd hyd i nifer o enghreifftiau lle'r oedd pensiynwyr y sector cyhoeddus wedi dychwelyd i weithio yn yr un sector ond wedi methu â datgan eu hincwm i'r cynllun pensiwn. Roedd cyfanswm y gordaliadau ychydig dros £56,000.

## Canlyniadau parau cyflogres

**2.12** Mae'r Fenter yn paru systemau cyflogres i ddod o hyd i achosion o dwyll cyflogres ac achosion lle mae gweithwyr cyflogedig yn torri amodau gwasanaethau neu gyfarwyddebau amser gweithio. Gall y math hwn o baru ganfod unigolion sydd:

- â dwy swydd lawn amser;
- ar absenoldeb salwch hirdymor o un sefydliad tra'n gweithio i sefydliad arall; ac
- sydd â dwy swydd sydd â threfniadau gweithio shifft anghydnaws.

**2.13** Cafwyd hyd i 10 achos o ganlyniad i Fenter 2004/2005. Gnwaethpwyd gordaliadau o dros £12,000. Er bod arbedion yn y maes hwn yn gymharol fach, mae manteision amlwg i ymdrin â'r parau hyn, fel diogelwch dinasyddion a/neu gleifion.

## Canlyniadau parau data eraill

**2.14** Mae'r Fenter yn galluogi awdurdodau i baru unigolion â chofnodion tenantiaethau cyngor a budd-dal tai, hawliadau ceiswyr lloches aflwyddiannus a thenantiaethau mewn awdurdodau eraill. Ym Menter 2004/2005, cyflwynwyd dau faes newydd i ategu'r gwaith traddodiadol o baru data tenantiaeth i ganfod twyll budd-dal a/neu denantiaeth. Y meysydd newydd oedd:

- tenantiaid a oedd wedi prynu eiddo'r cyngor trwy'r cynllun hawl i brynu; a
- chyn-denantiaid a oedd wedi gadael eiddo'r cyngor mewn dyled o fwy na £1,000 lle nad oedd gan y cyngor gyfeiriad newydd ar eu cyfer.

**2.15** Ychydig iawn o barau yn y meysydd hyn y daeth Menter 2004/2005 o hyd iddynt yn awdurdodau Cymru. Fodd bynnag, cafwyd canlyniadau diddorol yn yr achosion a ganfuwyd. Canfuwyd dau achos lle'r oedd y cynllun hawl i brynu wedi cael ei gamddefnyddio. Gall y math hwn o dwyll fod yn arwyddocaol lle mae gostyngiadau hawl i brynu mawr wedi'u hawlio trwy dwyll (gweler Astudiaeth Achos 3).

### Astudiaeth Achos 3

O ganlyniad uniongyrchol i adolygu parau data, canfuwyd bod cyn-geisiwr lloches yn manteisio ar y cynllun Hawl i Brynu. Nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd oherwydd mae wedi bod yn anodd pennu'r union sefyllfa gyfreithiol. Mae'r achos hwn wedi tynnu sylw at yr angen i fod yn wyliadwrus mewn perthynas â deddfwriaeth hawl i brynu ac mae'r awdurdod dan sylw yn galw am eglurhad cyfreithiol o hawliau cyn-geiswyr lloches i gymryd rhan yn y cynllun Hawl i Brynu.

## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi rhoi manteision ariannol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru

**2.16** Er mai canfod gordaliadau ac arbedion ariannol yw prif nod y Fenter, mae hefyd yn sicrhau manteision anariannol sylweddol. O ddefnyddio'r Fenter yn effeithiol, gall cyrff cyhoeddus gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd a meithrin diwylliant gwrth-dwyll a gwrth-lygredd yn eu sefydliadau.

**2.17** Mae'r Fenter hefyd yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gan fod angen iddynt rannu data a gwybodaeth i sicrhau'r manteision gorau posib. Os yw'r Fenter yn canfod gordaliadau posibl, megis dechrau'r broses o ganfod twyll gwirioneddol a gordaliadau eraill yw hyn.

**2.18** Gall rhai o'r parau a gynhyrchir gan y Fenter ddatgelu pryderon iechyd a diogelwch yn ogystal ag arbedion ariannol ee, lle bo gan weithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus ddwy swydd neu fwy â phatrymau shifft anghydnaws. Gall parau o'r fath dynnu sylw at berygl posibl i ddiogelwch y cyhoedd neu gleifion. Lle bo twyll budd-daliadau'n cael ei ganfod, gall ddarparu gwybodaeth am gymeriad gweithwyr cyflogedig a gall amlygu risgiau i gyflogwyr yn ogystal â'r awdurdod sy'n talu'r budd-daliadau.

## Datblygu a gwella'r Fenter yn y dyfodol

Mae lle i gyrff y sector cyhoeddus wella'r trefniadau sydd ar waith i fynd i'r afael â pharau'r Fenter.

**2.19** Er bod y Fenter wedi arwain at arbedion arwyddocaol, mae'n werth nodi na wnaeth pob corff a fu'n cymryd rhan yn y Fenter lwyddo i ddod o hyd i ordaliadau twyllodrus a/neu ordaliadau eraill ac roedd cyfanswm yr arbedion a ganfuwyd yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau.

**2.20** Er bod y Fenter yn offeryn pwysig i holl gyrff y sector cyhoeddus wrth fynd i'r afael â thwyll, awdurdodau lleol sydd fwyaf tebygol o sicrhau arbedion ariannol trwy'r Fenter gan mai nhw sy'n gyfrifol am daliadau budd-dal tai.

**2.21** Mae'n destun pryder bod tri awdurdod lleol wedi methu ag adrodd unrhyw arbedion o gwbl yn dilyn ymarfer 2004/2005, pan fo tri awdurdod lleol wedi llwyddo i ganfod arbedion o dros £0.25 miliwn ac awdurdod arall wedi dod o hyd i dros £0.5 miliwn o arbedion. Er y byddem yn disgwyl amrywiaethau rhwng awdurdodau gwahanol yn sgil materion fel demograffeg ac amddifadedd yr ardal a pha mor ddigonol yw'r mesurau rheoli ariannol cyfredol, ni all y materion hyn egluro'n llawn hyd a lled yr amrywiaethau mewn twyll a adroddwyd. Mae ein harchwilwyr wedi adolygu'r defnydd o Fenter 2004/2005 ac wedi canfod bod gan yr awdurdodau a elwodd fwyaf yn ei sgil ffactorau arbennig yn gyffredin:

- lefel uchel o ymrwymiad i ymladd yn erbyn twyll;
- roedd adnoddau wedi'u clustnodi at y diben hwn; ac
- roedd staff yr awdurdod yn ymwybodol o gynnwys y Fenter ac yn gwybod sut i'w defnyddiorau.

**2.22** Mae Menter 2004/2005 wedi dangos sut gall partneriaeth rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yng ngweddill y DU gael ei defnyddio i frwydro twyll yn y sector cyhoeddus yn llwyddiannus. Serch hynny, credwn fod lle i wella'r cydweithio hyn yn sylweddol yn y dyfodol i sicrhau canlyniadau gwell fyth.

**2.23** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n mynd ati i gydweithio'n agosach â chyrff y sector cyhoeddus i'w helpu i elwa i'r eithaf ar y Fenter. Yn arbennig, bydd hyfforddiant cychwynnol yn cael ei ddarparu ar ddefnyddio'r offeryn a bydd cymorth parhaus ar gael. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i'r holl gyrff sy'n cymryd rhan yn y Fenter ymrwymo i ddyrannu digon o aelodau staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol i ymchwilio i barau a gynhyrchir gan y Fenter.

Mae modiwlau paru data ychwanegol wedi'u datblygu ar gyfer ymarfer nesaf y Fenter, (Menter 2006/2007) i gynorthwyo cyrff y sector cyhoeddus i dargedu twyll a gordaliadau mewn systemau penodol.

**2.24** Ym Menter 2004/2005, cyflwynwyd cyfres o fodiwlau paru data 'seiliedig ar risg' y tu hwnt i elfennau gorfodol craidd y Fenter. Cawsant eu treialu mewn gwahanol fannau ledled y DU ond byddant ar gael i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru ym Menter 2006/2007. Mae pum modiwl seiliedig ar risg newydd y gall y cyrff fydd yn cymryd rhan ym Menter 2006/2007 eu defnyddio;

- **Parcio a thrafnidiaeth –** bydd y modiwl hwn yn paru data ynglŷn â bathodynnau glas ar gyfer parcio anabl a thrwyddedau parcio trigolion gyda data pobl farw i ganfod

achosion lle nad yw bathodynnau wedi'u canslo ar ôl marwolaeth yr unigolyn cymwys.

- **Hawliadau yswiriant –** bydd y modiwl hwn yn paru manylion hawliadau iawndal i ganfod unigolion sy'n hawlio'n gyson, a hynny rhwng ac o fewn yr awdurdodau lleol sy'n darparu'r data. Bydd hefyd yn paru â data budd-dal tai i ganfod achosion lle nad yw taliadau yswiriant mawr wedi'u datgan.

- **Taliadau i gartrefi gofal preswyl preifat a gofal parhaus –** bydd y modiwl hwn yn paru cofnodion marwolaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau ag unigolion mewn cartrefi gofal preswyl preifat i ganfod achosion lle'r oedd taliadau'n parhau i gael eu gwneud i'r cartref gofal preswyl ar ôl dyddiad marwolaeth y preswylydd.

- **Taliadau credydwyr –** bydd y modiwl hwn yn paru data statws a hanes credydwyr. Cymaint fu llwyddiant y modiwl yn y treialon, dyma'r unig un o'r parau peilot i gael ei gynnwys yn system graidd y Fenter a fydd yn cael ei chynnig i'r rhan fwyaf o gyrff a gaiff eu harchwilio yn 2006/2007.

- **trwyddedau masnachwyr marchnad a gyrwyr tacsi –** bydd y modiwl hwn yn paru'r trwyddedau hyn â data budd-dal tai i ganfod achosion lle nad yw enillion yn cael eu datgan o bosibl. Bydd hefyd yn paru fisâu'r DU a data ceiswyr lloches aflwyddiannus.

## Bydd cyfranogwyr ychwanegol yn cynyddu'r data y gall y Fenter ei baru, gyda'r potensial o ganfod achosion pellach o dwyll a gordaliadau.

**2.25** Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru sydd heb gymryd rhan yn y Fenter o'r blaen wedi cadarnhau y byddant yn cymryd rhan ym Menter 2006/2007. O ganlyniad, bydd mwy o ddata yn y cymhwysiad a gallai ganfod rhagor o achosion o dwyll a gordaliadau. O edrych tua'r dyfodol, y gobaith yw y bydd pob corff cymwys yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fenter maes o law.

## Mae cymhwysiad y Fenter yn cael ei ddatblygu ymhellach i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio.

**2.26** Yn ogystal â chynnwys mwy o setiau data a modiwlau ychwanegol, mae cymhwysiad y Fenter yn cael ei ddatblygu ymhellach. Ar hyn o bryd, caiff y cymhwysiad ei ddosbarthu i'r cyrff perthnasol ar ffurf CD-ROM, ac mae'n cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys yr adroddiadau newydd ynglŷn â thaliadau credydwyr.
Yn ogystal, mae cymhwysiad ar y we yn cael ei ddatblygu a fydd yn disodli'r CD-ROM yn y pen draw. Mae'r rhyngrwyd yn cynnig manteision gwirioneddol o ran pa mor brydlon a hawdd y gellir dosbarthu parau. Bydd hefyd yn lleihau costau ac, am y tro cyntaf, yn darparu llwybr archwilio i fonitro mynediad i'r parau.